Sampl o lythyron dyled

Llythyr dros dro (Anfonwch y llythyr hwn os na allwch chi wneud cynnig ar unwaith)

Enw'r credydwr
Cyfeiriad/cod post Dyddiad

Annwyl Syr/madam

Re: Rhif y Cyfrif**……**.

Mae'n flin gennyf na allaf gynnal fy nhaliadau misol presennol oherwydd…….. *esboniwch eich rhesymau*.

Rydw i'n ysgrifennu at fy holl gredydwyr yn gofyn faint o weddill sy'n ddyledus ar fy nghyfrifon a byddwn yn ddiolchgar pe gallech adael i mi wybod faint o ddyled sydd arnaf i chi. Unwaith y byddaf wedi derbyn y wybodaeth hon, cysylltaf â chi eto gyda chynnig pro rata ar gyfer ad-dalu'r ddyled uchod:- *neu*
Rydw i wedi gwneud cais am fudd-daliad…….a byddaf yn cysylltu â chi eto cyn gynted ag y byddaf yn dechrau ei dderbyn: - *neu*
Rydw i wedi bod yn sal/ddiwaith ers…….ac rydw i i fod i ddechrau/dychwelyd i'r gwaith ar *dyddiad* a chysylltaf â chi eto unwaith y byddaf wedi dechrau/dychwelyd i'r gwaith

Yn y cyfamser rydw i'n gofyn i chi ddal yn ôl rhag gweithredu ar fy nghyfrif am ddau fis ac atal llog ac unrhyw daliadau eraill i rwystro fy nyledion rhag mynd yn fwy.

Yr eiddoch yn gywir

Llythyr cynnig i gredydwyr sy ddim yn flaenoriaeth (Anfonwch y llythyr hwn at gredydwyr sy ddim yn flaenoriaeth ar ôl i chi lunio datganiad ariannol a gallu gwneud cynnig)

Enw'r credydwr
Cyfeiriad/cod post Dyddiad

Annwyl Syr/madam

Re: Rhif y Cyfrif **……**

Ynglŷn â fy llythyr dyddiedig *dyddiad*, rydw i bellach yn gallu cynnig ad-dalu'r ddyled uchod: *neu*
Mae'n flin gen i nad wyf yn gallu cynnal fy nhaliadau misol ar y lefel presennol oherwydd…..*esboniwch eich rhesymau*.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Rydw i'n amgáu copi o fy natganiad ariannol sy'n rhoi manylion o fy incwm a fy nhreuliau ac yn gwneud cynigion pro-rata i'm holl gredydwyr. Fe welwch o'r wybodaeth hon fy mod yn gallu cynnig £…. y mis i chi. Rydw i'n bwriadu gwneud fy nhaliad cyntaf ar…….Hyderaf y byddwch yn derbyn fy nghynnig fel un realistig yn ôl fy amgylchiadau ac yn cytuno i atal y llog ac unrhyw daliadau eraill ar fy nghyfrif a chymryd y byddaf yn talu taliadau rheolaidd. Byddaf yn eich hysbysu o unrhyw newidiadau yn fy amgylchiadau, wrth gwrs.

Diolchaf i chi am eich cydweithrediad ac edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthych.

Yr eiddoch yn gywir

Llythyr dim cynnig

Enw'r credydwr
Cyfeiriad/cod post Dyddiad

Annwyl Syr/madam

Re: Rhif y Cyfrif **……**

Mae'n flin gennyf na allaf gynnal fy nhaliadau misol presennol oherwydd……..
esboniwch eich rhesymau.

Rydw i'n amgau copi o fy natganiad ariannol sy'n rhoi manylion o fy incwm a fy nhreuliau. Fe welwch o'r wybodaeth hon nad wyf yn gallu cynnig taliad i chi ar hyn o bryd gan fy mod i ar incwm isel/ yn ddibynnol ar Gymhorthdal Incwm./Lwfans Ceisio Gwaith/Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag incwm/Credyd Pensiwn, sydd yn fudd-dal cynnal gyda'r bwriad i gyflenwi fy anghenion sylfaenol i/fy nheulu yn unig.

Rydw i'n gofyn i chi ddal yn ôl rhag gweithredu ar fy nghyfrif am chwe mis ac atal llog i rwystro fy nyledion rhag mynd yn fwy.

Rydw i'n gwneud pob ymdrech i gynyddu fy incwm/ dod o hyd i waith, a chysylltaf â chi eto cyn gynted ag y bydd fy amgylchiadau ariannol yn gwella.

Diolchaf i chi am eich cydweithrediad ac edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthych.

Yr eiddoch yn gywir

Fe ddylech addasu'ch llythyr i gyd-fynd â'ch amgylchiadau unigol.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 27 Hydref 2008, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr